



Ein nod ydi mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol trwy gefnogi cymunedau amrywiol i ennill y grym sydd ei angen arnyn nhw er mwyn cyflawni newid. Fe wneir hyn gynnon ni trwy drefnu cymunedol: dod â phobl a sefydliadau lleol at ei gilydd, eu hannog i osod eu hagenda'u hunain, cymryd camau gweithredol a gwella'u cymunedau eu hunain.

Mae Trefnu Cymunedol Cymru yn gyfuniad o nifer o grwpiau ffydd, grwpiau cymunedol ac ysgolion ar draws Siroedd Wrecsam, Fflint a Dinbych. Yn ein cyfarfodydd misol mae croeso i unrhyw un o'n haelodau godi mater yr hoffon nhw i TCC weithio arno. Golyga hyn mai ein haelodau sy'n llunio'n hagenda. Unwaith y bydd pob aelod arall wedi cytuno ar fater i weithio arno byddwn yn edrych ar y mater yn ofalus, yn darganfod pwy arall a all fod â diddordeb, a phwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad fydd yn newid y sefyllfa. Yna byddwn yn mynd ati i gefnogi'r rheiny caiff eu heffeithio gan y mater i arwain ymgyrch, gan gwrdd â'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i wneud newidiadau.

Rydym ni'n gweithio mewn cylchoedd cyhoeddus, yn aml gyda phobl mewn grym. Serch hynny, does gennym ni ddim ffafriaeth wleidyddol. Ein bwriad yn bennaf yw meithrin perthynas â phobl grym yn lleol er mwyn sicrhau fod pobl yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Dyma sydd wrth wraidd llwyddiant Trefnu Cymunedol Cymru ers ei sefydlu ym 1995. Yn 2016 bu TCC yn fuddugol yn seremoni Gwobrau Elusennau'r Guardian. Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'n llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adroddiad blynyddol llawn sy'n cynnwys y cyfrifon archwiliedig ar gael yn swyddfa'r sefydliad a gan y Comisiwn Elusennau.

Chwant bwyd amser Brecwast

Bu i'r gefnogaeth ymarferol ychwanegol y mae angen i ysgolion ei gynnig i ddisgyblion a theuluoedd ymddangos ym mhenawdau'r newyddion eleni. Bu i un o'n grwpiau aelod sylwi ar gynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer cinio ysgol am ddim yn defnyddio eu lwfans i brynu brecwast mewn ysgol uwchradd leol. Yn sgil hynny, roedd y disgyblion ynn brin o arian ar gyfer prynu cinio, bu inni fynd ati i ymchwilio ymhellach i'r mater. Bu inni holi 489 disgybl ledled Wrecsam a Sir y Fflint ynghyd â 106 o staff. Am nifer fach ond sylweddol o ddisgyblion, doedd yna ddim digon o arian yn y cartref ar gyfer prynu brecwast ac roedd defnyddio cyfran o'r lwfans ar ddechrau diwrnod yn broblem wirioneddol. Roedd athrawon hefyd yn dweud eu bod nhw yn cynnig mwyfwy o frecwast i bobl ifanc. Bu inni gyflwyno'r ffigyrau hyn i aelod arweiniol Wrecsam dros addysg ynghyd â swyddogion yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Bu inni ddatblygu perthnasau gwaith da er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Hefyd, bu inni gyflwyno ein canfyddiadau i Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol. Byddwn yn datblygu'r ymgyrch yn ystod y flwyddyn nesaf, gyda'r gobaith o gynyddu lwfans prydau ysgol am ddim fel bod modd i ddisgyblion brynu brecwast hefyd.



“Mae rhai disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim yn cyrraedd yr ysgol eisiau bwyd, ond maen nhw'n brin o bres cinio ar ôl prynu brecwast.”
Yvonne Girvan, arweinydd TCC

Ieuenctid yn Gweithredu



“Gyda TCC, bu imi ddysgu bod fy marn yn bwysig... Rydw i'n gwybod erbyn hyn sut i ymdrin â rhywun mewn grym a sut i gyfathrebu gyda nhw.” Arweinydd ifanc TCC.

TCC ydy'r unig fudiad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n cynnig y cyfle hwn i bobl ifanc fanteisio ar drefnu cymunedol er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar eu cymunedau. Cysylltwch gyda swyddfa TCC os hoffech chi wybod mwy.

Wrecsam Tref Noddfa

Ym mis Chwefror, ar y cyd â mudiadau lleol eraill, bu inni lansio menter gyffrous er mwyn gofalu fod Wrecsam yn Dref Noddfa. Mae Tref Noddfa yn lleoliad croesawgar a diogel i bawb, lle mae pobl yn falch o fedru cynnig noddfa i'r rheiny sy'n ffoi rhag trais ac erledigaeth. Bu i dros 100 o bobl fynychu'r digwyddiad lansio, lle bu tystiolaethau a barddoniaeth rymus gan bobl sy'n ceisio noddfa. Bu i'r dirprwy faer, yr Aelod Seneddol ac Aelodau Cynulliad gytuno i addewidion ac ymrwymadau. Bu i Noddwr TCC, Esgob Llanelwy fyfyrion ar gyfraniad ceiswyr noddfa i'n cymuned a bu i arweinwyr ifanc TCC drafod eu gwaith yn ymwneud ag Ysgolion Noddfa. Byddwn yn parhau gyda'r ymgyrch hyd at y flwyddyn nesaf ac ein gobaith ydy bod Wrecsam yn derbyn statws swyddogol Tref Noddfa.



“Gallaf gadarnhau fy mod i a fy rheulu wedi ymgartrefu yn ac yn ddiogel yn Wrecsam.”
Godwin Busuyi, Siaradwr Tref Noddfa Wrecsam

“Wrth groesawu ffoaduriaid, croesawu ceiswyr noddfa, croesawu mewnfudwyr ac amrywiaeth, mae'n fodd o gryfhau'n gwlad.” Yr Esgob Gregory Cameron, Noddwr TCC

Nodyn gan y prif drefnyddion

Pan fyddwn yn bwrw golwg yn ôl ar bob blwyddyn, rydym bob amser wedi ein syfrdannu gan ddwyster ac amrywiaeth y materion y mae ein haelodau yn eu rhannu gyda TCC ac rydym yn mynd i'r afael â nhw yn ystod unrhyw flwyddyn benodol – dydy eleni ddim gwahanol.

Bu i Gymru sefydlu foratoriwm ynghylch ffracio ers peth amser. Fodd bynnag, yn sgil y grymoedd newydd wedi'u datganoli, bu posib i hyn fod mewn peryg ym mis Hydref. Bu i arweinwyr TCC gyfarfod gyda phedwar Aelod Cynulliad, gan gynnwys y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Cefn Gwlad i ofyn iddyn nhw am gefnogi a chyflwyno gwaharddiad llawn ar ffracio. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddan nhw'n cefnogi unrhyw geisiadau yn ymwneud â ffracio yng Nghymru.

Mae'n amhosib bron inni gredu ei bod yn 10 mlynedd ers i Gymru ddod yn genedl Masnach Deg. Roedd yn bleser mawr gennym ni ymuno gyda Chlymblaid Masnach Deg Sir y Fflint i ddathlu!

Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, roedden ni ar ein pen ein digon o dderbyn cyllid gan Arian i Bawb o Gronfa'r Loteri Fawr. Roedd y cyllid yn fodd inni gynnal digwyddiad arbennig yn Llyfrgell Gladstone ym mis Mawrth er mwyn cyflwyno trefnu cymunedol i fwy o grwpiau ledled Gogledd Ddwyrain Cymru. Bu dros 60 o bobl yn bresennol a bu inni ddatblygu perthnasau newydd arbennig a denu mwy o aelodau o ganlyniad. Hoffem estyn croeso mawr i Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint, Ysgol Uwchradd Penarlâg, Crynwyr Llangollen ac Ysgol y Grango, wnaeth i gyd ymaelodi eleni.

Roedd yn bwysig i aelodau TCC eu bod yn mynegi undod gyda'r gymuned Fwslimaidd, yn dilyn digwyddiadau yn Seland Newydd. Bu iddyn nhw fynegi hyn drwy ddod ynghyd yng Nghanolfan Ddiwylliannol Islamaidd Wrecsam ym mis Mawrth.


Fe welwch chi o'n diweddariad ieuenctid fod ein gwaith ar y cyd â phobl ifanc yn ffynnu. Roedd yn bleser gennym ni dderbyn comisiwn gan Senedd yr Ifanc Wrecsam i gynnal dau sesiwn hyfforddi i'w pobl ifanc, lle bu i arweinwyr ifanc TCC gymryd rhan ynddyn nhw. Eleni bu inni hefyd gynnal dau sesiwn hyfforddi preswyl ar drefnu cymunedol.

Bu inni dderbyn y canlyniad gorau erioed yn sgil Wythnos TCC a chasglu dros £4,000! Rydym yn ddiolchgar i bawb am eu brwdfrydedd a'u cyfraniadau tuag at y noson gwis, ras rhwystrau Gungho , cyngherdd yr Elvis Cymraeg, prynhawn ymwybyddiaeth ofalgar a thwmpath.

Hoffem estyn diolch o galon i'n grwpiau aelod, arweinwyr ac ymddiriedolwyr am eu holl waith a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydych chi'n annatod i effaith TCC yn ymwneud â threfnu cymunedol dros gyfiawnder cymdeithasol ledled Gogledd Ddwyrain Cymru.

Sam Ix-Edwards & Kay Polley

Incwm



Total: £91,346


- Grantiau: £70,300
- Tâl aelodaeth: £6,500
- Rhaglen cefnogwyr: £5,377
- Codd arian: £4,999
- Hyfforddiant: £1,705
- Rhodd Cymorth: £1,605
- Rhoddion: £596
- Llog: £264

Ein harianwyr

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n ariannwyr sy'n cynnig grantiau er mwyn cefnogi TCC i gynnal eu mudiad o ddydd i ddydd. Yn ystod blwyddyn ariannol eleni bu inni dderbyn grantiau gan *Esmée Fairbairn Foundation*, *Eglwys Bresbyteraidd Cymru*, ac *Esgobaeth Llanelwy*.

Mae cyfrifon cyflawn wedi eu harchwilio yn annibynnol ar gael yn adroddiad blynyddol TCC.

Gwariant



Cyfanswm: £90,200

- Cyflogau a threuliau cyflogaeth: £72,926
- Camau gweithredu, cyfieithu, codi arian, hyrwyddo: £7,698
- Llungopiwr, postio & deunydd ysgrifennu: £2,558
- Costau teithio: £1,681
- Ffioedd cyfreithiol & yswiriant: £1,669
- Manion a dibrisiad: £1,655
- Cyfathrebu: £1,048
- Hyfforddiant: £965

37 Ffordd Kingsmills,
Wrecsam LL13 8NH.

01978 262588

www.tcc-wales.org.uk

office@tcc-wales.org.uk



Ein haelodau

Ar hyn o bryd mae gennym ni 33 o grwpiau gwahanol sy'n aelodau ac rydym ni wastad yn croesawu grwpiau newydd i'r gorlan. Mae pob grŵp yn talu ffi aelodaeth yn seiliedig ar eu maint. Ond fel y gwelwch chi, arian grant yw'r rhan helaethaf o'n hincwm.

Mae bod yn aelod o Drefnu Cymunedol Cymru yn rhoi cyfle i grwpiau ddod â'r materion sy'n eu pryderu i sylw'r sefydliad. Mae hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth, i roi cymorth a chefnogaeth i grwpiau eraill yn ogystal â chael hyfforddiant am ddim gan y sefydliad. Rydym ni'n cynnig hyfforddiant rheolaidd ar ffurf ein cyrsiau preswyl neu fe allwn ni drefnu hyfforddiant yn arbennig ar gyfer eich grŵp.

Ein staff

Mae'r swydd prif drefnydd yn swydd ar y cyd rhwng Mrs Kay Polley a Ms Sam Rex-Edwards. Roedd Sam ar gyfnod mamolaeth am ran o'r flwyddyn a bu i Kay gynyddu ei horiau i gyflawni'r swydd. Roedd yn bleser gennym ni groesawu Mrs Chloe Gallagher yn ôl wedi'i chyfnod mamolaeth. Bu i Miss Lucy Allin ymuno gyda Chloe i rannu cyfrifoldebau'r swydd trefnydd pobl ifanc a chymunedol. Mae cynnig swyddi ar y cyd yn gysyniad Newydd i TCC ond bu'n llwyddiannus dros ben i'r mudiad. Mae Mrs Sue Williams yn gweithio fel cynorthwydd gweinyddol rhan amser TCC

Ein hymddiriedolwyr

Mae ein bwrdd o ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Y bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd: Y Parch Dr Jennie Hurd (cadeirydd), Dr Farookh Jishi (is-gadeirydd), Mrs Carol Jones (trysorydd), Y Parch Anna Jane Evans, Mr John Gallanders (o Orffenaf 18) Mrs Nia Higginbotham, Mr Bill Long (o Fawrth 19), Mrs Ann Owen, Mrs Maria Rimmer, Ms Melanie Sinclair, a Ms Alison Tudor Williams, efo'r Arglwydd Esgob Gregory Cameron fel Noddwr. Mae pob grŵp yn cael eu hannog i enwebu aelodau i fod yn ymddiriedolwyr.